Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Chwefror 2024

# 1. Y cefndir

## Cyflwyniad

**1.** Ar 19 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. I gyd-fynd â'r cynigion roedd dogfen naratif, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, a thablau a oedd yn ategu'r cynlluniau gwariant.[1]

**2.** Cyn ei gyhoeddi, ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ofyn i bwyllgorau'r Senedd gyhoeddi eu hadroddiadau ar y gyllideb ddrafft erbyn 5 Chwefror 2024, fel bod modd cynnal dadl ar y gyllideb ddrafft ar 6 Chwefror 2024.[2] Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu'r ddadl ar gyfer y dyddiad hwn.[3]

## Ein cylch gorchwyl a'n dull craffu

**3.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**4.** Ar 2 Hydref 2023, gwnaethom gytuno i gynnal ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 drwy ohebiaeth. Cytunwyd hefyd y byddai'r gwaith craffu hwnnw yn canolbwyntio ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer gwariant ar faterion cyfiawnder ac ar welliannau i hygyrchedd y gyfraith.[4]

**5.** Ar 10 Hydref 2023, gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) i ofyn am fanylion am y materion hyn yn y gyllideb ddrafft sydd i ddod.[5]

---

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025, 19 Rhagfyr 2023
[2] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 12 Medi 2023
[3] Senedd Cymru, Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, 23 Ionawr 2024
[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Hydref 2023, Cofnodion
[5] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 10 Hydref 2023

**6.** Ar 17 Ionawr 2024, ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi, ysgrifennom eto at y Cwnsler Cyffredinol i ofyn am ragor o wybodaeth am gynigion y gyllideb.[6]

**7.** Ar 23 Ionawr 2024, ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol i'n ceisiadau am wybodaeth.[7] Yn yr atodiad i'w ymateb, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol amlinelliad o gynigion y gyllideb drafft sy'n berthnasol i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG), Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), ochr yn ochr â disgrifiad naratif o'r mathau o weithgarwch a ariennir gan y dyraniadau hynny, ac unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn a nodwyd i'r gwariant hwnnw.

**8.** Gwnaethom ystyried tystiolaeth ysgrifenedig y Cwnsler Cyffredinol ar 29 Ionawr 2024.[8]

[6] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2024
[7] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Ionawr 2024, Cofnodion

# 2. Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

## Atebolrwydd canlyniadau gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder

**10.** Wrth ystyried cyllidebau drafft blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi archwilio sut y gellir nodi gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder ynddynt, a sut y gellir monitro canlyniadau'r gwariant hwnnw wedi hynny.

**11.** Fel rhan o'n gwaith wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, dywedodd y Prif Weinidog wrthym:

> *"… nad yw gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder wedi'i ddadgyfuno ar wahân yn naill ai ein cyllideb na'n cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r realiti nad yw'r setliad datganoli sydd ar waith yn ariannu Llywodraeth Cymru i gael swyddogaeth gyfiawnder. Mae hefyd yn adlewyrchu natur drawsbynciol y gweithgarwch presennol sy'n ymwneud â chyfiawnder ar draws portffolios Gweinidogol."*[9]

**12.** O ganlyniad i'r gwaith craffu hwnnw, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddadgyfuno gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yng nghyllidebau drafft y dyfodol.[10]

**13.** Ym mis Chwefror 2022, yn ei ymateb i'n gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol:

- i archwilio'r ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru wella lefel y wybodaeth a ddarperir ganddi am wariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder;
- i gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru sydd ar ddod[11], gan nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr amcanion.[12]

---

[9] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 10 Ionawr 2022
[10] Llythyr at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Ionawr 2022
[11] Gweler yr adran berthnasol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion am y rhaglen hon.
[12] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Chwefror 2022

**14.** Gwnaethom barhau â'n gwaith craffu ar y mater hwn wrth inni ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Ar y pryd, nododd y Cwnsler Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadroddiad blynyddol ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, yn parhau i archwilio ffyrdd y gallai wella lefel y wybodaeth fanwl y gallai ei darparu am wariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder.[13]

**15.** Yn ein hadroddiad ar ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24, nodwyd bod y Cwnsler Cyffredinol yn fodlon ar lefel y tryloywder a ddarparwyd yn y gyllideb honno, a'i bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran datganoli pwerau mewn perthynas â chyfiawnder.[14] Nodwyd hefyd ein bod yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, gan edrych ymlaen yn benodol at weld unrhyw fanylion a all fod ynddo ar wariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn erbyn yr hyn a ragwelwyd, a gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw.[15]

**16.** Ar 22 Tachwedd 2023, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn fuan.[16]

**17.** Yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, nid yw'r cynigion gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder wedi eu cyflwyno mewn ffordd wahanol i flynyddoedd blaenorol. Er mwyn llywio ein gwaith craffu, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol roi crynodeb o unrhyw waith a wnaed i wella lefel y wybodaeth a ddarperir ar weithgarwch sy'n ymwneud â gwariant arfaethedig ar gyfiawnder. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"Mae'r cwestiynau a godir gan y Pwyllgor yn rhai teg ac rydym yn cydnabod budd y cyhoedd o gael atebion iddynt. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ymdrechion, er gwaethaf ei lwyth gwaith sylweddol arall, i graffu'n drawsbynciol ar faterion cyfiawnder, ac fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol o fewn Llywodraeth Cymru i roi mwy o bwys ac*

[13] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, LJC(6)-02-23 Papur 2 – Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Rhagfyr 2022, paragraff 2.9
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023, paragraff 31
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023, paragraff 35
[16] Senedd Cymru, WQ89638, Tachwedd 2023

*amlygrwydd i ystyriaethau cyfiawnder, er enghraifft drwy Is-bwyllgor Cyfiawnder y Cabinet.*

*Rydym yn cydnabod pwynt y Pwyllgor ei bod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru allu deall gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Rydym yn parhau i ystyried a oes ffyrdd y gallwn wella lefel yr wybodaeth y gallwn ei darparu am wariant cyfiawnder ar draws llywodraeth. Wrth gwrs, byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch a chanlyniadau o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn meysydd sy'n effeithio ar y system gyfiawnder.*

*Fodd bynnag, mae cyfyngiadau strwythurol sylweddol o hyd ar y graddau y gall Llywodraeth Cymru ystyried pob mater drwy "brism cyfiawnder", yn absenoldeb Gweinidog dros Gyfiawnder a Phrif Grŵp Gwariant (MEG) penodol ar gyfiawnder. Mae hyn yn ei dro wedi cael ei ystyried yn anodd ei gyfiawnhau yn absenoldeb cynnydd yn nifer y gweinidogion, a chyda graddfa bresennol y "swyddogaethau cyfiawnder" uniongyrchol a ddelir gan Lywodraeth Cymru, er, wrth gwrs, y gobaith yw y bydd y ddau beth hyn yn newid yn y dyfodol cymharol agos. Byddai angen mwy o gapasiti o ran y gwasanaeth sifil ar gyfiawnder hefyd i gefnogi'r newidiadau hynny, sydd wrth gwrs yn rhan o pam y mae'n rhaid ariannu unrhyw swyddogaethau datganoli cyfiawnder yn briodol.*

*Fodd bynnag, fel y mae pethau ar hyn o bryd (ac fel yr wyf wedi nodi yn fy ymddangosiadau blaenorol gerbron y Pwyllgor) nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel fanwl am wariant cyfiawnder gan ei bod yn dal yn wir bod gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws portffolios ac yn cael ei ddyrannu o fewn nifer o Linellau Gwariant y Gyllideb (BEL). Mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, ni fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch sut byddai'r arian o fewn y BEL honno wedyn yn cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud*

*rhagor o waith i asesu i ba raddau y byddant yn cael eu dyrannu i wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder."*[17]

**18.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn ei lythyr atom y byddai'r adroddiad cynnydd ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn cael ei gyhoeddi "cyn bo hir".[18]

## Ein barn ni

**19.** Rydym yn cydnabod yr anawsterau, fel y'u nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, a ddaw yn sgil dadgyfuno'r gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder o fewn cyllidebau drafft Llywodraeth Cymru heb weinidog sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder, a MEG penodedig ar gyfer y materion hynny.

**20.** Rydym felly'n croesawu'r ymdrechion parhaus i archwilio ffyrdd y gellir gwella lefel y wybodaeth a ddarperir am wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder ar draws y llywodraeth yn y dyfodol.

**21.** Credwn ei bod yn hanfodol sicrhau y gellir craffu'n fanwl ar ganlyniadau unrhyw wariant ar unrhyw weithgarwch er mwyn llywio cynigion ar gyfer gwariant yn y meysydd hynny yn y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, roeddem yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ar ôl ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae'n anffodus na chyhoeddwyd yr adroddiad hwn mewn pryd i ni ystyried y cynnydd a wnaed a'r gwariant yr aed iddo hyd yma i lywio ein gwaith craffu ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25.

**22.** Felly, yn enwedig o ystyried yr anawsterau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol wrth nodi gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder ymlaen llaw, rydym yn disgwyl gweld cymaint o fanylion â phosibl yn yr adroddiad cynnydd disgwyliedig mewn cysylltiad â gwariant blaenorol ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder, a sut y mae'r lefel hon o gyllid wedi gwella canlyniadau. Os na fydd y manylion hynny'n ddigonol yn ein barn ni, byddwn yn ystyried cynnal gwaith craffu ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn i edrych ar wariant ar weithgarwch o'r fath.

[17] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalennau 1-2
[18] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 3

**23.** Credwn hefyd, am resymau atebolrwydd, y dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi dyddiad erbyn pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cynnydd cyntaf ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi dyddiad i ni erbyn pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cynnydd cyntaf ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

## Y cyd-destun economaidd ehangach

**24.** Yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Ionawr, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

> *"... mae Cymru'n wynebu'r sefyllfa ariannol anoddaf ers dechrau datganoli ... Mae ein setliad ar gyfer 2024-25 bellach werth hyd at £1.3 biliwn yn llai mewn termau real na'r disgwyl ar adeg adolygiad gwariant 2021. ...Wrth lunio'r gyllideb ddrafft hon, bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anhygoel o anodd, a nhw yw'r rhai mwyaf amlwg a phoenus ers datganoli. Rydym wedi gweithio dros fisoedd lawer i ail-lunio ein cyllideb yn radical fel y gallwn ganolbwyntio cyllid ar y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl."*[19]

**25.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi effaith codiadau prisiau ar gynigion ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y gyllideb ddrafft, a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli. Wrth ymateb, dywedodd wrthym yn gyntaf am y materion y mae'n rhaid eu hwynebu wrth wneud asesiad o'r fath:

> *"Mae'r cwestiwn penodol am gynnydd mewn prisiau yn dangos y pwynt a wnaed yn yr adran uchod. Bydd effaith codiadau mewn prisiau wedi cael ei hystyried i'r graddau sy'n berthnasol yng nghyd-destun pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) unigol ac yn wir o fewn Llinellau Gwariant Cyllidebau unigol (BEL). Fodd bynnag, nid yw wedi cael ei hystyried yn gronnus mewn perthynas benodol â gwariant ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn ein barn ni, byddai ceisio gwneud hynny'n anghymesur o drwm ar adnoddau wrth ei osod yn erbyn y gwerth y byddai'n ei gynnig.*

[19] Y Cyfarfod Llawn, 9 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion [265, 270, 271]

*Wrth ddod i'r farn honno, rydym yn sylwi bod y mater wedi ei godi yn ystod craffu ariannol mewn blynyddoedd blaenorol, sef mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, na fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch sut byddai'r arian o fewn y BEL honno wedyn yn cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud rhagor o waith i asesu i ba raddau y byddant yn cael eu dyrannu i wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder. Mae hyn yn cymhlethu ymhellach unrhyw asesiad y gellid ei wneud o effaith codiadau mewn prisiau."*[20]

**26.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud fel a ganlyn:

*"… nid oes gennym unrhyw reswm i gredu y bydd effaith codiadau mewn prisiau ar wariant cyfiawnder yn wahanol iawn i effaith codiadau mewn prisiau ar feysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru. Mae ein setliad ar gyfer 2024-25 yn werth hyd at £1.3bn yn llai mewn termau real na'r disgwyl ar adeg Adolygiad Gwariant 2021. Mae hynny'n anhygoel o anodd. Yn benodol, mae cyfran fawr o'r gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn ymwneud â chostau staff, gan gynnwys nid yn unig gweision sifil ond y farnwriaeth ddatganoledig, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac eraill. Wrth gwrs, mae costau staff wedi cynyddu mewn termau ariannol yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae hyn ynddo'i hun yn ymateb i brisiau uwch a'r effaith ar gostau byw."*[21]

## Ein barn ni

**27.** Rydym yn cydnabod effeithiau negyddol y cyd-destun economaidd ehangach ar y gyllideb ddrafft. Nodwn hefyd asesiad y Cwnsler Cyffredinol na fydd effaith codiadau mewn prisiau yn cael effaith anghymesur ar gyllid ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder o'i gymharu â meysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau difrifol a wynebir gan y sector cyfiawnder troseddol yng Nghymru, rydym yn gobeithio y bydd y Cwnsler Cyffredinol ac Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder yn adolygu unrhyw

[20] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 2
[21] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 2

effeithiau posibl ac yn gweithio'n agos gyda'r sector i liniaru unrhyw effeithiau cyn belled ag y bo modd.

## Cyllid ar gyfer meysydd sydd heb eu datganoli

**28.** Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn nodi fel a ganlyn:

> *"O ystyried y cyfyngiadau cyllidol eithriadol ar ein cyllideb, rydym wedi adolygu pob maes o'n cyllid, gan gynnwys mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli lle rydym wedi camu i'r adwy i ddarparu cyllid yn absenoldeb cymorth gan Lywodraeth y DU neu i gau bylchau. Yn y cyfnod anodd hwn, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ariannu meysydd datganoledig yr ydym yn gyfrifol amdanynt."*[22]

**29.** Mae'r ddogfen yn nodi'r gostyngiad o ran cyllid yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu[23], a bod cyllid ar gyfer rhaglen ysgolion heddlu Cymru wedi'i "ailflaenoriaethu"[24]. Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol ragor o fanylion inni:

> *"… un o'r ffactorau rydym wedi'u hystyried yw i ba raddau yr oedd cyllid wedi'i gynllunio i fod yn gymhorthdal i feysydd a gedwir yn ôl. Er enghraifft, rydym wedi lleihau cyllid Llywodraeth Cymru i'r pedwar heddlu yng Nghymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO), o £21.459 miliwn yn 2023-24 i £15.488 miliwn yn 2024-25.*
>
> *Rydym yn dal i ddarparu dros £15m o gyllid i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er bod y maes hwn wedi'i neilltuo i Lywodraeth y DU. Darperir yr arian hwn yn ychwanegol at y cyllid i heddluoedd gan Lywodraeth y DU, gan ddarparu buddsoddiad ychwanegol mewn cymunedau yng Nghymru nad yw ar gael i heddluoedd yn Lloegr.*
>
> *Rydym wedi ymgysylltu â chydweithwyr plismona ar draws proses y gyllideb, fel rhan o'n dull hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae cydweithwyr ym maes plismona nawr yn ystyried effaith y gyllideb a bydd swyddogion*

[22] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 144
[23] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 146
[24] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 53

*Llywodraeth Cymru yn cwrdd â nhw i drafod a chytuno ar ddull gweithredu ar y cyd ar gyfer y camau nesaf ar ôl i'w hasesiad cychwynnol gael ei gwblhau.*

*Rydym hefyd wedi tynnu ein cyllid yn ôl ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru. Mae'r Rhaglen yn dod o fewn cyfrifoldeb portffolio'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ac fe'i hariannwyd o'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y gyllideb camddefnyddio sylweddau) sydd o dan bwysau arbennig. Deallaf y bydd y Dirprwy Weinidog yn ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda manylion pellach am y dewisiadau a wneir o fewn y gyllideb camddefnyddio sylweddau a gofynnaf a ellir rhannu'r llythyr hwnnw â'r Pwyllgor."*[25]

### Ein barn ni

**30.** Rydym yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gweithgarwch mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llawn dros ddarparu cyllid atodol ar gyfer gweithgarwch sy'n berthnasol i faterion sydd heb eu datganoli.

**31.** Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn bod angen gwneud dewisiadau anodd, rydym yn pryderu am effaith bosibl y gostyngiadau hyn o ran cyllid. Pan fydd Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid wedi cynnal asesiad cychwynnol o effeithiau'r gostyngiad mewn cyllid i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a thynnu cyllid yn ôl o raglen ysgolion heddlu Cymru, credwn y dylid rhannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor a phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd.

## Y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**32.** Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i ddiwygio'r system gyfiawnder yng Nghymru.[26] Uchelgais hirdymor y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yw paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder a phlismona "pe bai pwerau, a'r lefelau priodol o gyllid" yn cael eu datganoli.[27]

**33.** Mae'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn y gyllideb ddrafft yn darparu adnoddau i ariannu'r rhaglen hon. Er bod y cyllid a ddarperir i'r BEL wedi'i gynnal[28] ar y lefel a

[25] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 3
[26] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022
[27] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022, tudalen 8
[28] Y dyraniad i'r BEL hwn yw £480,000.

ddarparwyd yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24, bydd hyn yn arwain at doriad mewn termau real yn 2024-25 oherwydd pwysau chwyddiant.

**34.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod y BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn darparu adnoddau i'r gweithgarwch a ganlyn sy'n ymwneud â chyfiawnder:

- cydlynu'r rhaglen 'Trawsnewidiad Cyfiawnder' ar draws y Llywodraeth a'r ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru;
- anelu at ddatganoli cyfiawnder a pharatoi ar ei gyfer;
- cefnogi ymgysylltiad ag argymhellion Comisiwn Cyfiawnder Llywodraeth y DU;
- datblygu'r sector cyfreithiol gan gynnwys ymgysylltu â Chyngor Cyfraith Cymru; a
- bwrw ymlaen â'r gwaith o ran Tribiwnlysoedd Cymru gan gynnwys cynigion ar gyfer eu diwygio.[29]

**35.** Fel yr ydym wedi'i nodi eisoes, wrth ymateb i'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno adroddiad blynyddol yn nodi cynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn amcanion y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.[30]

**36.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi goblygiadau ymarferol pwysau cyllidebol ar y rhaglen. Yn ei ymateb, amlinellodd y cyllid gostyngol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r cyllid a dynnwyd yn ôl o raglen ysgolion heddlu Cymru (gweler paragraff 29), gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Yn gyffredinol … rydym yn credu ein bod wedi cyflawni cydbwysedd cymesur rhwng y gofyniad i ymateb i amgylchiadau ariannol sy'n newid a'r uchelgeisiau pwysig wrth Sicrhau Cyfiawnder i Gymru."*[31]

**37.** Sefydliad sy'n cefnogi pobl sydd â heriau iechyd meddwl ac sy'n ceisio sicrhau newid cymdeithasol yw Platfform, ac yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid

[29] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 9
[30] Llywodraeth Cymru, Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 28 Chwefror 2022
[31] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 3

galwodd i Lywodraeth Cymru wneud paratoadau brys mewn perthynas â datganoli cyfiawnder. Dywedodd fel a ganlyn:

> *"We need to see urgent work by Welsh Government to begin the devolution of welfare and criminal justice systems, which are preventing Wales from taking action to address embedded systemic failure."*[32]

**38.** Felly, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol nodi i ba raddau y bydd gwaith paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn parhau yn sgil pwysau cyllidebol. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"Mae gwaith i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn cael ei gwmpasu'n bennaf drwy'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a fydd yn parhau i dderbyn £480,000 yn ystod y flwyddyn ariannol. Costau staffio yn bennaf yw'r costau i'w talu o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder. Fodd bynnag, disgwylir i'r BEL hwn gael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau allanol fel ymchwil a dadansoddi er mwyn gwella ein dealltwriaeth o ddatganoli cyfiawnder. Rydym yn disgwyl i'r gwaith paratoi barhau dros y flwyddyn ariannol nesaf."*[33]

**39.** Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y byddai adroddiad cynnydd Llywodraeth Cymru ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn "nodi'r uchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn i ddod" mewn cysylltiad â datganoli cyfiawnder.[34]

## Ein barn ni

**40.** O ystyried y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, nodwn y bydd gwaith paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn parhau yn 2024-25, ac nad oes gostyngiad mewn termau arian parod yn y BEL Trawsnewid Cyfiawnder a ddefnyddir ar gyfer y gwaith hwn.

**41.** Rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddiad yr adroddiad cynnydd cyntaf gan Lywodraeth Cymru ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru a byddwn yn ceisio clywed tystiolaeth lafar gan y Cwnsler Cyffredinol ar y mater hwn yn y dyfodol agos. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar

[32] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 41 Platfform, Rhagfyr 2023
[33] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 6
[34] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 6

gyfer 2023-24,[35] byddwn yn chwilio am gyfleoedd i graffu ar yr adroddiad ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

## Yr effaith ar anghydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

**42.** Mae Clinks yn cynrychioli sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, a chyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft. Cododd bryderon ynghylch y galw cynyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau hynny yng nghyd-destun pwysau cyllidebol, a dibyniaeth y sefydliadau hynny ar gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Wrth ymateb, daeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"As a significant funder of the sector in Wales, the Welsh Government's budget can provide vital support for Welsh voluntary organisations through flexible, unrestricted, multi-year grants. By ensuring the Welsh criminal justice voluntary sector is adequately resourced, organisations can continue to work with people in contact with the criminal justice system to help them transform their lives, and so reduce reoffending. Insufficient funding will result in organisations having to make cutbacks to their services, even though demand for help and support from people in contact with the justice system continues to rise."*[36]

**43.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol roi gwybodaeth i ni am unrhyw ymgysylltiad a wnaed â sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol i lywio'r gwaith o baratoi'r gyllideb ddrafft. Gwnaethom hefyd ofyn am wybodaeth am sut y byddai dyraniadau ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb, a sut y bydd y gwariant arfaethedig ar weithgarwch o'r fath yn 2024-25 yn ateb gofynion dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"Mae'r holl gwestiynau hyn yn codi'r un heriau strwythurol wrth ateb y cwestiwn am gynnydd mewn prisiau uchod, ynghylch i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ystyried pob mater drwy*

[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023, paragraff 35
[36] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 39 Clinks, Rhagfyr 2023

*"brism cyfiawnder", yn absenoldeb Gweinidog dros Gyfiawnder a Phrif Grŵp Gwariant (MEG) penodol i gyfiawnder.*

*Bydd yr effaith ar anghydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r angen am ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael eu hystyried i'r graddau sy'n berthnasol yng nghyddestun pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) unigol ac yn wir o fewn Llinellau Gwariant Cyllidebau unigol (BEL). Mae gan rai rhanddeiliaid feysydd diddordeb arbennig o eang, ac felly, er enghraifft, rydym wedi ymgysylltu â chydweithwyr plismona ar draws proses y gyllideb, fel rhan o'n dull hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae cydweithwyr ym maes plismona nawr yn ystyried effaith y gyllideb a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â nhw i drafod a chytuno ar ddull gweithredu ar y cyd ar gyfer y camau nesaf ar ôl i'w hasesiad cychwynnol gael ei gwblhau.*

*Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau a godwyd wedi cael eu hystyried yn gronnus mewn perthynas benodol â gwariant ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn ein barn ni, byddai ceisio gwneud hynny'n anghymesur o drwm ar adnoddau wrth ei osod yn erbyn y gwerth y byddai'n ei gynnig."*[37]

## Ein barn ni

**44.** Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 19, rydym yn cydnabod yr anawsterau ymarferol ynghylch ystyried gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder mewn ffordd gronnol.

**45.** Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r heddluoedd wrth ddatblygu'r gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth inni am y ffyrdd yr ymgynghorir â sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru – gan gynnwys y rhai yn y sector gwirfoddol – wrth baratoi'r gyllideb ddrafft.

**46.** Nodwn fod rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid wedi tynnu sylw at y pwysau difrifol a wynebir gan sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithio'n benodol ar gyfiawnder troseddol yng Nghymru. Nodwn fod Clinks, yn

[37] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 4

benodol, wedi nodi dibyniaeth y sefydliadau hyn ar gyllid Llywodraeth Cymru a'r cynnydd yn y galw am gymorth cymhleth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. O ystyried y dystiolaeth hon, nid ydym yn cytuno â barn y Cwnsler Cyffredinol y byddai ymgysylltu â sefydliadau drwy fecanweithiau fel y rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn defnyddio cyfran anghymesur o adnoddau. Credwn y dylai hyn fod yn rhan angenrheidiol o waith Llywodraeth Cymru a'i hystyriaeth o ran gwariant ar gyfer blwyddyn 2024-25. Yn hollbwysig, drwy beidio ag ymgysylltu'n ehangach â'r grwpiau rhanddeiliaid hyn, credwn fod perygl i Lywodraeth Cymru golli cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael ac i dargedu adnoddau mewn meysydd blaenoriaeth.

## Cyfraddau carcharu a chamau ataliol

**47.** Ym mis Mai 2023, dywedodd yr Arglwydd Bellamy, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fod capasiti carchardai yn y DU tua 99 y cant.[38]

**48.** Mae Dr Robert Jones o Ganolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd wedi nodi, ym mis Medi 2023, fod y gyfradd garcharu 'yn y wlad' yng Nghymru wedi cynyddu i 177 fesul 100,000 o bobl, o'i chymharu â chyfradd o 146 fesul 100,000 o bobl yn Lloegr. Canfu hefyd fod y gyfradd garcharu yng Nghymru llawer yn uwch bellach na'r lefel a gofnodwyd mewn unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop.[39] Nodwyd yn ei waith ymchwil hefyd mai pobl sy'n perthyn i grŵp ethnig Du yng Nghymru oedd y grŵp ethnig a orgynrychiolwyd fwyaf mewn carchardai yn 2022.[40]

**49.** Yn ogystal â'i bryderon a nodir ym mharagraff 42, cododd Clinks bryderon yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid bod mesurau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â heriau difrifol capasiti carchardai yn debygol o gynyddu'r galw ymhellach ar y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad gwirfoddol y mae'n ei gynrychioli.[41]

**50.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2024-25 mewn ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chapasiti carchardai. Yn ei ymateb, dywedodd y canlynol wrthym:

[38] Dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi, 16 Mai 2023, Cyfrol 830, Colofn 216
[39] Dr Robert Jones, Prifysgol Caerdydd, Prisons in Wales: 2022 Factfile [Saesneg yn unig], Tachwedd 2023, paragraffau 1.59–1.60
[40] Dr Robert Jones, Prifysgol Caerdydd, Prisons in Wales: 2022 Factfile [Saesneg yn unig], Tachwedd 2023, paragraff 1.41
[41] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB_24-25 39 Clinks, Rhagfyr 2023

*"Nid oes unrhyw newidiadau penodol wedi cael eu gwneud i gynlluniau gwario, ond mae risgiau clir yn deillio o'r heriau hyn. Er enghraifft, mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg carcharorion yng Nghymru yn cael ei phennu drwy gyllid canlyniadol, ac mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol am y gyllideb ar gyfer addysg mewn carchardai. Deellir nad oes unrhyw gynlluniau i gynyddu'r gyllideb yng ngoleuni niferoedd cynyddol o garcharorion, sy'n cynrychioli pwysau ar gyllid addysg carchardai yn y blynyddoedd i ddod.*

*Mae capasiti carchardai yn effeithio ar wasanaethau digartrefedd ledled Cymru mewn dwy ffordd; mae'r niferoedd uchel o garcharorion yn y system garchardai yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, mae prinder staff yn y system garchardai a'r sefydliadau sydd wedi'u contractio i ddarparu cymorth a chyngor i bobl sy'n mynd i'r carchar ac yn cael eu rhyddhau o'r carchar yn gwaethygu'r broblem ymhellach.*

*Ar adegau, mae carcharorion yn cael eu rhyddhau cyn eu hamser, gan wneud cynllunio cymorth a llety yn anoddach o lawer i awdurdodau lleol sy'n cael eu herio ar adegau o gwblhau asesiadau i ddiwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth ac sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain a'r cymunedau lle maen nhw'n cael eu hailsefydlu.*

*Mae hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn heriol yn anoddach i awdurdodau lleol sydd eisoes yn wynebu prinder tai a phecynnau cymorth i bobl ag anghenion cymorth uchel. Oherwydd nifer isel o staff mewn carchardai yn ogystal â heriau recriwtio, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod bod asesiadau tai yn aml yn cael eu gohirio pan gaiff unigolion eu derbyn i'r carchar, gyda'r canlyniad bod rhai carcharorion ar ddedfrydau byr mewn perygl o golli eu llety oherwydd diffyg cyfathrebu â'u landlord nad yw'n gwybod eu bod yn y ddalfa. Nid oes gennym ddata i fesur yr wybodaeth hon.*

> *Mae gan y ffactorau y cyfeirir atynt uchod oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol yn ogystal â risg uwch i gyn garcharorion."*[42]

**51.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am wybodaeth am sut y bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â chyfiawnder yn cefnogi camau i leihau cyfraddau carcharu yng Nghymru, yn enwedig ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig. Gwnaethom hefyd ofyn am wybodaeth am gamau ataliol a fydd yn cael eu cyllido gan y dyraniadau arfaethedig ar wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder.

**52.** Yn ei ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod y rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn cynnwys llawer o ymrwymiadau sydd â'r nod o atal a lleihau cyfraddau carcharu yng Nghymru, a nododd sut yr oedd cyllid ar gyfer Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, atal digartrefedd, a chyllid ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi ei ddiogelu yn y gyllideb ddrafft.[43]

## Ein barn ni

**53.** Nodwn y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft, a thystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol ar y materion a godwyd mewn perthynas â chapasiti carchardai a chamau ataliol i leihau cyfraddau troseddu.

**54.** Rydym yn cydnabod effaith penderfyniadau gwariant gan Lywodraeth y DU ar gyllid canlyniadol ar gyfer addysg carchardai, a'r effeithiau a geir, yn sgil rhyddhau carcharorion yn gynnar, ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a'r effeithiau tebyg ar awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu'r gwasanaethau hynny.

**55.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y data ar gyfraddau carcharu yng Nghymru a'r materion sy'n codi o ran capasiti'r gwasanaeth carchardai. Felly, rydym yn bwriadu parhau i graffu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, a monitro cynnydd Llywodraeth Cymru ar y mater hwn drwy ein gwaith craffu ar y rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

---

[42] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalennau 4-5

[42] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalennau 5-6

## Tribiwnlysoedd Cymru

**56.** Caiff Tribiwnlysoedd Cymru eu gweinyddu a'u cefnogi'r drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru, y daw ei hadnoddau o'r BEL Tribiwnlysoedd. Er bod y cyllid a ddarperir i'r BEL wedi'i gynnal[44] ar y lefel a ddarparwyd yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24, bydd hyn yn arwain at doriad mewn termau real yn 2024-25 oherwydd pwysau chwyddiant.

**57.** Ym mis Mehefin 2023, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau arfaethedig i'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Hydref 2023.[45]

**58.** Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, argymhellwyd y dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi manylion i ni am yr adnoddau y disgwyliwyd y byddai eu hangen ar gyfer y cynigion hyn.[46]

**59.** Felly, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu trosolwg o'r adnoddau yn y gyllideb ddrafft i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn. Cadarnhaodd y daw'r adnoddau ar gyfer y gwaith hwn o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder, a dywedodd fel a ganlyn:

> *"Cawsom 54 o ymatebion [i'r ymgynghoriad] gan ymatebwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a oedd yn cwmpasu rhychwant y diwygiadau arfaethedig. Ein nod yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ddiwedd mis Ionawr.*
>
> *Dim ond gyda deddfwriaeth sylfaenol y gellir sefydlu system unedig newydd o dribiwnlysoedd. Mae amserlennu'r ddeddfwriaeth honno'n amodol ar ei phrosesau ar wahân ei hun, ac yr ydym yn bwrw ymlaen â gwaith paratoi cyn i'r ddeddfwriaeth honno gael ei hamserlennu'n ffurfiol."*[47]

**60.** Ar 30 Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'w hymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r tribiwnlysoedd. [48]

---

[44] Y dyraniad i'r BEL hwn yw £4,110,000.
[45] Llywodraeth Cymru, System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur gwyn, 19 Mehefin 2023
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 2
[47] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalennau 6-7
[48] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur gwyn

### Ein barn ni

**61.** Rydym yn croesawu'r ffaith nad yw'r dyraniad o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweinyddu tribiwnlysoedd datganoledig wedi newid o'r gyllideb ar gyfer 2023-24.

**62.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'w diwygiadau arfaethedig i'r tribiwnlysoedd. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau, ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig.

**Argymhelliad 2.** Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau i Dribiwnlysoedd Cymru, ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r bil a fydd yn darparu ar gyfer y diwygiadau hynny.

## Rhaglen Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch

**63.** Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.[49] Gosododd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol diweddaraf ar gynnydd y rhaglen ym mis Tachwedd 2023,[50] a gosododd ei rhaglen ddiwygiedig ar 19 Ionawr 2024.[51]

**64.** Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu gwybodaeth am wariant arfaethedig yn y gyllideb ddrafft i gyflawni'r rhaglen. Dywedodd wrthym y daw'r arian i dalu am y costau hyn o "nifer o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad", ac y bydd y drefn honno'n parhau yn y dyfodol.[52]

**65.** Tynnodd y Cwnsler Cyffredinol ein sylw hefyd at yr adroddiad blynyddol a osodwyd ym mis Tachwedd 2023 a oedd yn nodi manylion am staff ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen,[53] a'r "cyfyngiadau gallu mesur yr ystod lawn o gostau sy'n gysylltiedig ag ystod eang o adnoddau staff sy'n ymwneud (yn

[49] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026, Medi 2021
[50] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - adroddiad blynyddol 2022 i 2023, Tachwedd 2023
[51] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024
[52] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 7
[53] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 – adroddiad blynyddol 2022 i 2023, Tachwedd 2023 Adnoddau

benodol) â pharatoi'r prosiectau deddfwriaethol, rhai sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth".[54]

**66.** Fodd bynnag, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol y manylion a ganlyn inni:

> *"...gallaf gadarnhau bod costau Cwnsleriaid Deddfwriaethol a Chyfieithwyr Deddfwriaethol sy'n gweithio ar y Bil Deddfwriaeth a'r Bil Cynllunio a gwaith y Swyddfa Codau Deddfwriaethol i gefnogi'r rhaglen yn ei chyfanrwydd a chyflawni prosiectau penodol yn dod dan BEL 6720 – Costau Staff.*
>
> *Mae costau TG bach iawn hefyd yn gysylltiedig â chefnogi a chynnal gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales, y disgwylir iddynt fod yn llai na £7,000 ar gyfer 2024-25, a fydd yn dod o dan BEL 6860 – costau TG."*[55]

**67.** Yn ei ymateb i'n cais am wybodaeth am y gwariant arfaethedig i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym nad oedd dim "gwariant ychwanegol penodol wedi'i neilltuo'n llwyr i gynyddu'r ddarpariaeth o ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch yng nghyllideb ddrafft 2024-25", a bod y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn "cyfrannu at yr uchelgais pwysig hwn ac yn ei gefnogi."[56]

## Ein barn ni

**68.** Nodwn dystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas ag unrhyw ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

**69.** Rydym yn cydnabod ei ddatganiad bod cyfyngiadau o ran gallu meintioli'r costau sy'n gysylltiedig â'r ystod eang o adnoddau staff sy'n rhan o baratoi'r prosiectau deddfwriaethol, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

**70.** Nodwn hefyd ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol nad oes gwariant ychwanegol penodol yn y gyllideb ddrafft sydd wedi'i neilltuo'n llwyr i gynyddu'r ddarpariaeth o ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch.

[54] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 7
[55] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 7
[56] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 7

## Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

**71.** Cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ei adroddiad terfynol ar 17 Ionawr 2024.[57]

**72.** Mae'r Cwnsler Cyffredinol eisoes wedi dweud wrth y Senedd, yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol y Comisiwn, y bydd angen adnoddau i ariannu rhaglen ymgysylltu ar ei ganfyddiadau ac yna proses "i weld sut y gallwch chi drosi'r casgliadau hynny'n newid ymarferol".[58]

**73.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig darparu cyllid i gefnogi'r Comisiwn.[59] Pan ofynnwyd iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am y dyraniad hwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yr hyn a ganlyn wrthym yn ei ymateb:

> *"Pennwyd y gyllideb ddrafft o reidrwydd cyn derbyn adroddiad y Comisiwn Cyfansoddiadol. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn ddoeth cadw darpariaeth gyllidebol i'w hystyried a bwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn cyn gwybod beth allai'r argymhellion hynny fod. Rydym nawr yn ystyried adroddiad y Comisiwn, a byddwn yn nodi ein cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen ag ef maes o law."*[60]

### Ein barn ni

**74.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'r dyraniad yn y gyllideb ddrafft i ariannu gwaith yn y dyfodol sy'n deillio o ganfyddiadau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

**75.** Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hasesiad cychwynnol o adroddiad y Comisiwn, credwn y dylai nodi i'r Senedd sut y caiff y dyraniad hwn ei ddefnyddio.

**Argymhelliad 3.** Ar ôl cwblhau ei hasesiad cychwynnol o adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fanwl i'r Senedd am sut y bydd y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 i ddatblygu canlyniadau gwaith y Comisiwn yn cael ei ddefnyddio.

[57] Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol, 17 Ionawr 2024
[58] Y Cyfarfod Llawn, 1 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion [100]
[59] Y dyraniad drafft ar gyfer BEL y Comisiwn Cyfansoddiadol yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yw £997,000.
[60] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalennau 7-8